# Tair
# O
# GERDDI
# NEWYDDION

Y GYNTAF;

Hanes buchedd y rhan fwyaf o Ddŷnion ſŷdd hêb feddwl am eu diwêdd, ond ſŷdd yn hyderu ar y Byd ymma; i'w chanu ar gwêl yr *Adeiliad.*

Yr Ail, Cerdd yn datgan hanes Gwr gweddw ar Frynniau'r Werddon.

Yn *Drydydd*; Cerdd i annerch Mr. *William Thomas* o *Dref* Newydd yn Sir *Drefaldwin* ar *Bryniau'r Werddon.*

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*MWYTHIG*; Argraphwyd gan STAFFORD PRYS, tros THOMAS ELIAS 1766,

*Cerdd newydd, hanes Buchedd y rhan fwya o ddynion; sydd heb feddwl am eu Diwedd, ond hyderu ar y Byd yma, i'w chanu ar Gwel yr Adeilad.*

YStyried holl Blant Adda, mae damwen,
I'w 'r Byd ymma, neu yrfa oerfaith,
Er maint i'w 'n hyder ynddo, wrth nattur,
Ni gawn etto amdo i ymdaith,
Nid oes er Adda i'r hwya i hoes,
I Weîthio 'n gore cyn dwad ange,
Ond byrr o ddyddie i godi 'n gradde 'n groes,
A hyn drwy boen a blinder creulonder lawer loes,
A phwy pan fydde yn nyddiau ei nwy;
Na feddylia hwyr a Bore am ddyrnod Ange,
Cŷn rhoddi o'i gledde o glwy, (mwy.
GallDuwein rhoi mewn gwerud heb fyw'r un munud

Mae Criftion yn ymrwymo, Drwy ffydd,
A Bedydd beidio a gwyro i gerydd,
Cafhau o hyd ei hoedel, y Byd,
A'r Cnawd a'r Cythrel afel ufudd,
Ymroi yn rhyfedd iawn a rhoi,
Ei addewidion fod yn ffyddlon,
Neu Siccrwydd ddigon hoff union y gwnae ffoi,
Ne wnaiff yn maglau'r Cythrel ar drafel ddim ym-
Pan fo mewn oedran gyfan go, (droi,
Daw'r Byd a phechod i'ŵ gyfarfod,
Fe durr yr ammod waith hynod a wnaeth fo,
Ni feddwl ef na cheifio, trafaelio trwyddo un tro,

Ond at yr hen Elynion, draw 'n annwyl,
Fe dru 'n union oerion eirie,
Yn lle cyflawni yn wrol, neu ddeuf'u,
Am fyw 'n urddafol fel yr addawfe,
Y Bŷd, â hwn fo ymglyma 'n glŷd,
Fe dru i'w lafurio a'i galon ynddo,
Fe grediff iddo pan ddelo 'n gryno o'i gryd,
Heb gofio 'r Bywyd nefa lle ceiff o drochfa dryd,
A'r llall ail Elyn cyndyn call
Y Cnawd a'i drachwant a fydd i'w feddiant, Yn

X205092239

Yn llawn o nwyfiant mor bendant yno heb ball
A hwn wrth gael ei Dendio'n gwyro i foddio'r fall.

Fe ddilyn Bob drygioni, yn rhugul,
Ni adaw fo i wrando 'n fwynedd, ar unig,
Air gwirioned ; o'i Annedd unwaith,
Ymroi fel pharo heb geifio ffoi,
A Chrift a'i Eglwys wiladwris yn galw 'n gymwys,
Neu ddownus pam na ddoi,
O'th ffordd a'th fuchedd aflan gwell iti druan droi,
Clyw, Clyw medd geiriau a deddfau DUW ;
Dychwel weithan eyfod allan o rwydau Satan,
Bŷdd etto rwyddlan rŷw,
Ymâd a'th holl ddrŷgioni ag fellu byddi byw.

Ond dyma 'r modd yn eglur, bydd calon,
Pob pechadur amhur ymma,
Yn dweud pan ddelom i'n henedd ; mi faria,
Bob oferedd ag mi edifarha,
Pwy ŵyr, pa un a'i Bore a'i hŵyr,
A'i heddyŵ a'i foru y geilŵ 'r Iesu,
A'i lîd o'n Dautu yn cynnu fel y Cŵyr,
Neu gyrr o'r Ange in difa a rhoi ini laddfa lwyr,
Yr oedd bryd, yr enwog clymog clŷd,
Pan wnae 'n ei amfer dai drwy wchder,
Yn llawn o gryfder i gadw i bwer Byd,
Fe Synnodd y nos honno ymado ag efo i gyd.

UNIV. COL. S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

Yn Ifangc Boddio Satan ' a chadw,
I DDUW ei hunan Ddyddiau ei henaint,
Ni chymer yr oen gwirion, ( mo'r gweddill,
Diafol gwyddon ) y Perfon Pŷr-faint
A phwy, a fentra yn nyddie eu nwy,
Ddilyn gwagedd fâr oferedd,
Rhag ofn yn henedd ddwad arno'n glafedd glwy,
A'i daro heb âllu fymud na dweud gair methlud mwy
Pan fydd y gruddiau ar Bronau 'n brudd,
Y Traed yn fferru ar ddwylaw 'n fythu,
A'r Cnawd yn crynnu a phallu o wendid ffydd,
Ni ddywed dri gair hynod a'i dafod yn y Dydd,

Yn

Yn llesg rhaid dechre Cresu, ar golwg,
Ar i fynu 'n galw 'n swynedd,
Fe dd'wed JESU o Nazareth "Dwyfamod,
" O dos ymeth araith oeredd,
" Pa ri, o ddyddie brasia eu bri,
" Cest lawer Blwyddyn er yn blentyn,
" Gallesit gychwyni mofyn peth a mi,
" A mine lawer wythnos a ddarfu d' aros di
Gwanhau, wan 'r Corphyn briddin brau,
Wrth ddiodde gormod baich o bechod,
A hi Cydwybod naws hynod yn nesſhau,
Ac ofan mynd o ddifri i ddiodde cledi clau.

A'r dyn o'r Cyflwr hwnnw; 'n ddi' morol,
A fo marw *bydd* garw ei *gerydd*,
Medd geiriau glan y g'leuni; gŵae *iddo*,
Erioed moi eni i'w boeni beunydd,
*Bydd dryd holl ofer bethe'r byd*,
Y bu'n ei casglu ŵr tar a'i tyrru,
Gan hel o'i ddautu a'u prynu lawer pryd,
*Cydwybod dda 'r dydd hwnnw sydd gwell nag elw i gyd*
Pa lês ni fydd ô'n nawr ddim nes,
Py cae fo'r hollfyd yn ei fywyd,
A dŵeud bob mynud y *gwynfyd yma ges*,
*Os bydd yr Enaid truan yn grudd fan yn y gwres*,

Meddylied Pawb yn wastad, mae hoedel
Dyn fel hediad, neu dynniad tonne,
Rhai'n henedd iawn a hûnan; rhai 'n Ifengc,
Fellu y Byddan yn mynd i'w bedde,
Bob awr mae'r Ange modde mawr,
Yn rhoi ini ddyrnod gwae ni o'i ddyfod mawr,
Mae'n lladd y gwan a'r cryfa fo roes *Goliab* i lâwr,
Pôb pen, rhag gormod syndod sen,
Ceisiwn eil-fyd mewn Ifieingtyd,
Nid oes un munud o'r howddfyd ymma i'r hên,
Yn Ifangc troi sydd ôre' â Duw fo madde *Amen*.

*Hugh Jones, Llangwm a'i Cant.*

Cerdd

X205892739

## *Cerdd yn datgan hanes Gwr gweddw ar Fryniau'r Werddon.*

PAn oeddwn i'n ddiweddar mewn galar trist a
(thrwm,
Am calon dost glwyfedi yn bwysig megis plwm,
Mewn cyflwr blin hiraethlon yn ddigon prydd fy ngwedd
Ar ol fy mhriod griedd fy'n gorwedd yn y bedd.

Mewn gwelu mi orweddais a chysgais yn y man
Ag yn y mreuddwyd difri er codi ynghalon wan,
Fy anwyl gu gymhares a weles ger fy mron,
Mewn dull ac agwedd amlwg ai golwg arnai'n llon.

Mi glown fy nghalon oerllyd mor hyfryd yn cael gwres
With weled y mwya a geres mi gelwes atta yn nes
Gofynwn ymha fane y base yn aros cyd,
Am gadel i trwy'r amser mewn prydd-der yn y byd.

Fel hyn hi ddwedau yn bwyllig fy unig neges yw
Ddwyn attoch wir newyddion yn union oddiwrth
(Dduw,
Mae'ch dymuniadau Duwiol ach nerthol weddi gref
Yn cael eu cyfan wrando au croeso yn y Nef.

Rwy'n awr mewn cadair uchel yn caffel bri o braint
Daeth miloedd im crosawy a rheini i gyd yn saint,
Y Gwragedd a gwyryfon duwiolion mwya eu dysc
Bob un sydd yn fy 'nghynwys i 'Orphwys yn ei mysc

Pan aethym yn gaertrefol ir nefol neuadd wenn,
Mi gefais wiscoedd gwnnion a Coron ar fy mhenn
Y rhai fuase'r Jesu yn ei brynu ar y groes
Drwy ofid Angeu sceler a llawer chwerw loes

Er maint oedd fy mhechodau am beiau trymion trist,
Mi

Mi gefais lwyr faddeuant wrth haeddiant Jesu Grist,
Ac fellu trwy drugaredd a rhinwedd rhwyddlawn rhad
Rwi beunydd mewn dedwyddwch a heddwch gyd ar
( tad

Attolwg ymgyssurwch na byddwch trist eich gwedd
Er bod nghorph mor farwedd yn gorwedd yn y bedd,
Daw amser iw gyfodi ai ddodi etto yn fyw,
A rhoi fy enaid ynddo i darrio yn ninas Duw.

Ar amser fy madawiad daeth cennad wych or Nef
A meddyginiaeth i mi i ddofi'r boen oedd gref,
Ac fellu cael fy fymyd mewn ennyd munud Awr,
I Deyrnas Duw goruchaf ni fyrthiaf byth i lawr.

Rhowch heibio eich tristwch weithan yn gyfan ac
(yn llwyr
Moliennwch Dduw galluog yn wresog fore a hwyr
Glodforwch ei fawrhydi am roddi pob rhwyddhad,
A phethau mawr digonol sydd reidiol er llesshad,

Ystyriwch chwithe heddyw nad ydyw eich bywyd
(byrr
Ond breuol a methiedig ychydig jawn ai tyrr,
Am hynny os edrychwch chwi ellwch wybod gwir
Eich blodeu a wywasant nhwy syrthiant cyn bo hir

Yn awr cymerwch rybydd yn ufudd i wellhau
Gweithiwch tra fo'r goleu ach dyddiau yn parhau
Yn ol ir haul dywyllu a phallu grym a gwres
Ni ddichon undyn weithio a llwyddo i gael lles.

Os ydyw ein plant hiraethlon yn bryddion jawn bob,
Mynegwch hyn om hanes mi gefes amser mawr (awr
Rhoent ymaith eu calonnau feddyliau gweigion gwael
Wrth glywed y llawenydd fydd beunydd i mi gael.

Cyd

Cyd gwympwch i weddio a cheiſio grym a gras
I ymladd byth yn erbyn tri gelyn creulon cas
Mae'r byd ai olud diffaith cnawdoliaeth nwyf a chwant
A Satan 'yn eu helphu nes maeddu llawer cant

Yn awr eich unig orchwyl yw diſgwyl y tri hyn,
A cheiſio eu dodi yn feirw trwy chwerw Ryfel tynn,
Mewn ffydd ddiffuant fywiol a nerthol weddi gref,
Ymleddwch yn 'wllyſgar cewch wobor yn y nef.

Duw anwyl ach bendithio ach cadwo bod ag un
Mewn meddwl Duwiol gwaſdad a chariad yn gyttun,
Nes myned rhyng breichie'r Jeſu i lettu cyflawn clyd,
Lle cawn ymddiddan etto pan ddarfo am hyn o fyd.

*Neſydd Hardd* ai Cant.

*Cerdd i annerch* Mr. WILLIAM THOMAS o *Dref Newydd yn Sir Drefaldwin ar* Bryniau'r Werddon.

DYdd da fo i cymro mwynedd mewn mowredd dan y rhod
Un *William Thomas* weddus cariadus mawr ei glod,
Chwi gowſoch golled goſdus ar law eich prentus toſt,
Rhowch fawl ich inon frenin er cimaint ydyw yr goſt,

Mae genych ddigonedd drwy y rhinwedd dawn a rhad
Er cimaint fydd yn tario a hynu yn nwylo yr wlad.
A gwelwch gael eich digon o foddion yn ddufeth,
Bodlondeb undeb tirion ond purion ydyw yr peth,

Maddeiwch byddwch fod'on fe dal ein tirion dad
Gyn nabod y calonc trwy ddonie mawr a rhad,
Y fe ſi i feddu yr dial ni attal neb mo'i law,
Rhowch arno bwys a hyder rhag pob gorthrymder braw
Ach priod hynod hafedd wraig weddedd lariedd lon,
Hir iechyd hyfryd union a fyddo i ddwyfron hon,
A phob dedwddol fowyd ir hyfryd deg ei Llun,

Fel *Abraham a Sara* mewn tynfa bur gyttun,

A ddarfu witsio wetsin ond cethin oedd ei waith,
ymgroesed hwn yn fian rhag Satan ar ei daith,
Rhag Collu yr wlad dragwyddol achael uffernol fflam
Ond dyna yr taledigaeth am wneud rhiw anferth gam

Mae yr gwr ygwnaeth y Llyged yn gweled oddu frŷ,
Er bod y dyn daiarol yn nerthol ag yn grŷ,
Os gwadiff hwn yr arian ond trian ydyw yr tro,
Ond ydi yn ddigon tebyg y bydd perig ar no fo.

Hir hoedel Dirion i fod mewn purion clod,
I meisdir Thomas hynod ai briod dan y rhod,
A rhan or deyrnas nefol le siriol lis y Saint,
Ichwi a mynd yn dawel i gaffel bru a braint.

*Morris Parry Slatter Llanegrin* a'i Cant.

# DIWEDD.

Morris Parry Slatter
Llanegrin ai Cant Diwedd